



# **Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd**

Ebrill 2023

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chefndir .....	3
2.	Manylion yr Ymgynghoriad.....	4
3.	Methodoleg Dadansoddi .....	5
4.	Crynodeb o'r Ymatebwyr.....	6
5.	Crynodeb o Ymatebion fesul Pennod.....	7
5.1	Pennod 1: Canllawiau, Llywodraethu a Goruchwylio .....	7
5.2	Pennod 2: Diffinio Ansawdd.....	11
5.3	Pennod 3: Galluogwyr Ansawdd.....	12
5.4	Pennod 4: Safonau Ansawdd .....	15
5.5	Pennod 5: Gofyniad Adrodd Ansawdd.....	18
5.6	Pennod 6: Gwneud Penderfyniadau, Monitro a Sicrwydd.....	20
5.7	Pennod 7: Aseidiadau Effaith Integredig.....	21
5.8	Pennod 8: Aseidiadau Effaith Integredig (yr iaith Gymraeg) .....	22
5.9	Pennod 9: Sylwadau Ychwanegol .....	23
6.	Casgliad a'r Camau Nesaf .....	25
	Atodiadau:.....	26
	Atodiad A: Diffiniadau Thema .....	26
	Atodiad B: Rhestr o'r Ymatebwyr.....	27

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

Pasiwyd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf") ym mis Mawrth 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ynghylch nifer o gynigion cydgysylltiedig sy'n ymwneud ag ansawdd ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronus i boblogaeth Cymru a rhoi amodau ar waith sy'n ffafriol i wella iechyd a llesiant.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys pedair prif ran ac mae rhan 2 yn gosod Dyletswydd Ansawdd statudol ar Weinidogion Cymru o ran eu swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac ar gyrff y GIG yng Nghymru.

Mae cyflwyno Dyletswydd Ansawdd yn amlygu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ansawdd gwasanaethau iechyd. Yr amcan yw i'r Ddyletswydd Ansawdd newydd ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n gofyn iddynt ystyried sut y gallant wella ansawdd yn barhaus. Y nod yw y bydd gwella ansawdd ac, felly, canlyniadau yn dod yn rhan annatod o brosesau gwneud penderfyniadau.

Bydd Gweinidogion Cymru o dan Ddyletswydd Ansawdd gyfatebol i sicrhau bod eu penderfyniadau yn cefnogi ac yn cyfrannu at y dull system gyfan o ymdrin ag ansawdd y mae ei angen.

Ymgwymerwyd â rhaglen waith gynhwysfawr i ddatblygu canllaw i gynorthwyo cyrff y GIG i ddeall a pharatoi ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd. Sefydlwyd cyfres o ffrydiau gwaith gyda chymorth cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac ar draws y GIG. Roedd mecanweithiau llywodraethu ar waith i ddarparu goruchwyliaeth briodol i'r gwaith gan ystod eang o randdeiliaid.

Roedd y canllawiau'n nodi diffiniad o ansawdd ac yn disgrifio'r gofynion trosfwaol i gryfhau ein systemau rheoli ansawdd drwy wneud penderfyniadau a chynllunio sy'n seiliedig ar ansawdd. Y weledigaeth yw y bydd hyn yn cryfhau ein cyfrifoldebau a'n cyfleoedd dysgu a rhannu.

Er mwyn meithrin cysylltiadau clir rhwng y Ddyletswydd Ansawdd a safonau, ac i gyflawni'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau, bwriadodd y canllawiau ymgorffori Safonau Ansawdd o fewn canllawiau'r Ddyletswydd Ansawdd a fyddai'n disodli'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Rhagwelwn y bydd hyn yn annog cyrff y GIG i wreiddio safonau'n well yn eu ffyrdd o weithio. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod aliniad clir rhwng y Ddyletswydd Ansawdd, safonau lefel uchel a systemau rheoli ansawdd.

Mae gofal iechyd yn gynyddol gymhleth, ac mae'r GIG yn wynebu heriau digynsail. Ein gweledigaeth a'n huchelgais yw cyrraedd safonau uwch fyth o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru. Mae canllawiau'r Ddyletswydd Ansawdd yn nodi'r camau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff y GIG eu cymryd, wedi'u cymhwysu i'w cyd-destun strategol lleol, i gyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais.

## 2. Manylion yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y Ddyletswydd Ansawdd rhwng 25 Hydref 2022 ac 20 Ionawr 2023.

Gellid derbyn ymatebion mewn sawl ffordd:

- Ar-lein trwy borth Smart Survey;
- Anfon copi caled o'r ymgynghoriad trwy'r e-bost.
- Anfon trwy'r post

Eglurwyd bod y Ddyletswydd Ansawdd yn golygu bod dyletswydd ar sefydliadau'r GIG a Gweinidogion Cymru i:

- greu diwylliant o ansawdd o fewn sefydliadau.
- canolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau i'r boblogaeth yn barhaus; a
- monitro cynnydd gwelliant yn weithredol a rhannu'r wybodaeth hon â'u poblogaeth yn rheolaidd.

Roedd yr ymgynghoriad eisiau barn cyfranogwyr ar:

- Sut rydym yn cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd i sefydliadau'r GIG a Gweinidogion Iechyd Cymru drwy ganllawiau statudol newydd.

Roedd holl ddogfennau'r ymgynghoriad ar gael ar y dudalen ganlynol: [Dyletswydd ansawdd | LLYW.CYMRU](#) ac mae rhestr wedi'i darparu isod. Cynhyrchwyd fideo llawn gwybodaeth am y Ddyletswydd Ansawdd hefyd ac roedd ar gael trwy'r ddolen uchod. Roedd y dogfennau'n cynnwys:

- Dogfen ymgynghori.
- Dogfen ymgynghori hawdd ei ddeall – hawdd ei ddeall;
- Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023.

### 3. Methodoleg Dadansoddi

Derbyniwyd yr ymatebion i'r Ymgynghoriad ar-lein drwy Smart Survey Llywodraeth Cymru a thrwy'r e-bost. Cafodd yr ymatebion a ddaeth i law trwy'r e-bost eu lanlwytho i'r Smart Survey i sicrhau bod set ddata lawn gyda fformat cyson ar gael i'w dadansoddi.

Cafodd holl ddata'r ymgynghoriad ei goladu a chwblhawyd dadansoddiad meintiol cychwynnol. Amlygodd hyn nifer yr ymatebion 'cyflawn' ac 'anghyflawn', y gyfradd ymateb fesul cwestiwn a'r ganran ydy/nac ydy ar gyfer y cwestiynau perthnasol. Rhoddodd y dadansoddiad meintiol cychwynnol o bob cwestiwn gyfle cynnar i amlygu meysydd y nododd ymatebwyr y byddai angen eu hystyried ymhellach.

Cafodd yr holl sylwadau a ddarparwyd gan ymatebwyr drwy gydol yr ymgynghoriad 23 cwestiwn eu coladu, ynghyd â rhif adnabod yr ymatebydd a ph'un a atebodd yr ymatebydd ydy neu nac ydy ai peidio ag ateb y cwestiwn. Yna, cawsant eu grwpio fesul cwestiwn a phennod. Roedd y penodau yn y dadansoddiad a'r adroddiad cryno yn deillio o'r adrannau yn y ddogfen ymgynghori. Rhoddodd y camau uchod gyfle i ddadansoddi ymatebion mewn amryw ffordd.

Y cam nesaf a gymerwyd oedd y dadansoddiad ansoddol o sylwadau'r ymatebydd ar gyfer pob cwestiwn. Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 32 ymateb cyflawn ac 8 anghyflawn ac, o'r 40 ymateb, codwyd 441 o sylwadau drwy'r ymgynghoriad. A defnyddio dull anwythol o ddadansoddi, adolygwyd ac ystyriwyd yr holl sylwadau, gan arwain at nodi a diffinio 7 thema (gweler Atodiad A).

Cafodd yr holl sylwadau eu hadolygu a, lle bo hynny'n berthnasol, eu codio gyda thema; roedd themâu lluosog yn gysylltiedig â rhai sylwadau. Cafodd cyfanswm o 305 o sylwadau eu codio gydag o leiaf un thema, sy'n cyfateb i 69% o'r holl sylwadau. Yn ail, atebodd ymatebwyr 'na' i gwestiynau gyfanswm o 142 gwaith yn ystod yr ymgynghoriad a rhoddont 137 o sylwadau gyda'r ymateb hwn; o'r sylwadau hynny, cafodd 79% ohonynt eu codio â thema.

Ar ôl adolygu'r holl sylwadau a, lle bo hynny'n berthnasol, eu codio gyda thema/themâu, dadansoddwyd y set ddata a'i chyflwyno gan ddefnyddio Power BI. Roedd defnyddio meddalwedd Power BI yn gyfle i gyflwyno adroddiad rhyngweithiol a hygyrch. Roedd hyn yn cynnig y gallu i amlygu themâu ac is-themâu a oedd yn codi fesul cwestiwn, pennod, ymatebydd a ph'un ai atebodd yr ymatebydd ydy neu nac ydy (lle bo hynny'n berthnasol). Roedd hyn hefyd yn gyfle i dreiddio i bob thema ac is-thema i weld y sylwadau a ddarparwyd gan ymatebwyr a oedd wedi'u codio i'r thema/is-thema honno.

#### Nodyn ar gywirdeb data

Wrth lanlwytho'r ymatebion a gafwyd trwy'r e-bost i'r Smart Survey ac yn ystod y dadansoddiad meintiol cychwynnol, sylwyd ar anghysondeb yn y dogfennau ymgynghori. Roedd cwestiwn 10 yn yr arolwg ar-lein yn cynnig opsiwn ymateb ydw/nac ydw ond nid oedd pob cyflwyniad trwy'r e-bost yn gwneud hynny. O ganlyniad i'r anghysondeb hwn, dim ond 16 o ymatebwyr ydw/nac ydw a gafwyd o'r cyflwyniadau cyflawn ac anghyflawn, ond cafwyd 26 o sylwadau. Oherwydd yr anghysondeb hwn, penderfynwyd y byddai'r data ydw/nac ydw yn cael ei hepgor o'r crynodeb o'r ymgynghoriad, fodd bynnag cwblhawyd dadansoddiad thematig o bob ymateb a'i gynnwys.

## 4. Crynodeb o'r Ymatebwyr

Cynhyrchodd yr ymgynghoriad ar y Ddyletswydd Ansawdd 32 ymateb cyflawn ac 8 ymateb anghyflawn. Ymatebion cyflawn yw'r rhai a gyflwynwyd fel rhai terfynol, gyda mwyafrif y cwestiynau, ond nid pob un ohonynt, wedi'u hateb. Ni chafodd ymatebion anghyflawn eu cwblhau'n derfynol cyn dyddiad gorffen yr ymgynghoriad ac, mewn sawl achos, ni atebwyd unrhyw gwestiynau o gwbl.

Nid oedd yr ymgynghoriad yn gofyn bod pob cwestiwn yn cael ei ateb cyn ei gyflwyno'n derfynol. Ar gyfartaledd o'r 32 ymateb cyflawn, atebodd 26 o ymatebwyr bob un o'r 23 chwestiwn yn yr ymgynghoriad (cyfradd gwblhau o 82%). Ar gyfer yr 8 ymateb anghyflawn, ar gyfartaledd cafwyd ychydig yn llai na 2 ymateb fesul cwestiwn (cyfradd gwblhau o 22%).

Drwy gydol yr adroddiad, lle'r atebwyd cwestiynau mewn cyflwyniad anghyflawn, mae'r niferoedd wedi'u cynnwys yn y canrannau ydy/nac ydy, a chofnodwyd ac ystyriwyd sylwadau gan yr ymatebwyr hyn yn y dadansoddiad thematig.

O'r 32 o gyflwyniadau a gwblhawyd, nododd 27 o ymatebwyr sefydliad cysylltiedig a nododd 1 ei fod yn ddefnyddiwr gwasanaeth/dinesydd. Cydnabyddir hefyd bod 7 o ymatebwyr wedi nodi eu bod am aros yn ddiennw.

Dyma'r dadansoddiad o'r ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion cyflawn:

- 9 cynrychiolydd proffesiynol / sefydliad y GIG e.e. Byrddau Iechyd neu Ymddiriedolaethau'r GIG
- 9 cymdeithas broffesiynol e.e. Colegau Brenhinol
- 4 elusen e.e. Anabledd Dysgu Cymru
- 2 ddarparwr annibynnol
- 1 gan ddinesydd/defnyddiwr gwasanaeth;
- Nid oedd 8 ymateb anghyflawn yn rhestru ateb.

Mae rhestr o ymatebwyr ynghyd â'u sefydliadau cysylltiedig wedi'i chynnwys yn Atodiad B<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> Gofynnodd 7 o ymatebwyr am aros yn ddiennw.

## 5. Crynodeb o Ymatebion fesul Pennod

### 5.1 Pennod 1: Canllawiau, Llywodraethu a Goruchwylio

Yn y bennod hon o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd canllawiau'r Ddyletswydd Ansawdd yn amlinellu'n glir: a) yr hyn yr oeddent yn ceisio'i gyflawni, b) i bwy yr oeddent yn berthnasol ac c) a oedd y strwythurau llywodraethu ac arwain a amlinellwyd yn ddigonol ac yn glir i gefnogi cyrff y GIG. Gofynnodd hefyd a oedd y cyfrifoldebau am y Ddyletswydd Ansawdd o fewn cyrff a gomisiynir a chyrrff a letyir yn cael eu hamlygu'n glir.

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C1 A yw'r Canllawiau'n glir ynghylch yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni gyda chyrrff y GIG drwy gyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd?	30	77%	23%	Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	26
				Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	24
C2 A yw'r canllawiau ynghylch i bwy mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys yn glir?	30	87%	13%	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	21
				Gweithredu a Chyflawni	15
C3 A yw'r canllawiau'n ddigon clir ynghylch y strwythurau llywodraethiant sydd eu hangen?	28	86%	14%	Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	14
				Amser, Staffio ac Adnoddau	8
C4 A fydd y strwythur llywodraethiant hwn yn cefnogi cyrff y GIG i gydymffurfio â'r ddyletswydd?	28	75%	25%	Hyfforddi a Datblygu	4
C5 A yw'r canllawiau'n amlinellu'n glir lefel yr arweinyddiaeth sydd ei hangen mewn sefydliadau?	29	76%	24%		
C6 A yw hi'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am y ddyletswydd ansawdd mewn gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir?	32	72%	28%		

Graffigyn 1.1: Cwestiynau Pennod 1, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

Ym mhob un o'r cwestiynau yn y bennod hon, nododd dros 70% o'r ymatebwyr fod y canllawiau'n glir o ran amlinellu'r hyn y mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ceisio'i gyflawni, i bwy y mae'n berthnasol a'r strwythurau llywodraethu ac arwain y bydd eu hangen. Er bod ymatebwyr wedi nodi 'ydynt', bod y canllawiau'n glir yn y meysydd hyn, roedd llawer o hyd yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer ystyriaeth bellach neu eglurder. Fel yr amlygir yn y graffigyn uchod, cododd 3 thema yn fwy rheolaidd na'r lleill drwy gydol y bennod, p'un a oedd yr ymatebwyr wedi ateb ydynt neu nac ydynt i'r cwestiwn.

#### **Cwestiwn 1: A yw'r Canllawiau'n glir ynghylch yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni gyda chyrrff y GIG drwy gyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd?**

Dywedodd 23 o ymatebwyr fod y canllawiau'n glir ynghylch yr hyn yr oedd cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd yn ceisio ei gyflawni. Fodd bynnag, cododd themâu lluosog drwy gydol Cwestiwn 1, ac un ohonynt oedd cyfathrebu ac ymgysylltu. Teimlai'r ymatebwyr y dylai gwybodaeth fod yn hygyrch ac yn hawdd i ddefnyddwyr gwasanaeth ei deall. Ategwyd y pwynt hwn gan ymatebydd a awgrymodd y dylid cael dogfen 'Canllawiau Statudol Hawdd eu Darllen i ategu dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddyletswydd'; codwyd hyn sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad.

Amlygodd ymatebwyr hefyd y gallai fod angen darparu mwy o fanylion ynghylch gweithredu a chyflawni'r Ddyletswydd, gyda chyfranogwyr yn nodi, 'bod angen gwneud gwaith i drosi hyn ar gyfer prosesau/systemau gweithredol o ddydd i ddydd', ac amlygodd un ymatebydd arall nad oedd o'r farn bod 'canllawiau gweithredu digonol i ddangos sut y bydd hyn yn hwyluso dull system gyfan o wella profiad y claf'.

Roedd y thema fwyaf cyffredin ar gyfer Cwestiwn 1 yn ymwneud â'r berthynas â pholisïau a darparwyr gwasanaeth eraill. Teimlai ymatebwyr y byddai angen ystyried ymhellach y berthynas â pholisïau megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymru Iachach, a'r goblygiadau iddynt, a dywedodd ymatebydd arall 'y bydd allbwn o [ffrwd waith] y Fframwaith Adrodd Ansawdd yn hanfodol i fapio gofynion [y] Ddyletswydd Ansawdd i'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol newydd'. Holodd ymatebwyr hefyd am oblygiadau'r Ddyletswydd i ddarparwyr gwasanaeth eraill, gydag un yn gofyn, 'sut mae [y] fframwaith ansawdd ar gyfer gwasanaethau iechyd yn integreiddio ag eraill [er enghraifft] gofal cymdeithasol a'r system iechyd ehangach?' Gan adeiladu ar hyn, gofynnwyd hefyd am gydnabyddiaeth bellach i'r sector annibynnol a chyfrifoldebau ysbytai annibynnol sy'n gweithio gyda'r GIG.

## **Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau ynghylch i bwy mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys yn glir?**

Roedd y thema ynghylch perthnasoedd â pholisïau a darparwyr gwasanaeth eraill hefyd yn amlwg yng Nghwestiwn 2, gyda bron i hanner holl sylwadau'r cwestiwn hwn yn amlygu y dylai'r canllawiau ystyried hyn ymhellach. Amlygodd nifer o ymatebwyr y byddai angen darparu rhagor o fanylion am ddarparwyr Gofal Sylfaenol. Er enghraifft, gofynnodd un ymatebydd am eglurhad ynghylch meddygfeydd teulu sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol o gymharu â'r rhai sy'n cael eu rhedeg gan Fwrdd Iechyd, a chodwyd hyn yn ddiweddarach yn y bennod hefyd.

Teimlai eraill y byddai angen eglurhad pellach ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r GIG a dywedodd un ymatebydd 'er nad yw'r Ddyletswydd o bosibl yn berthnasol yn uniongyrchol i wasanaethau gofal sylfaenol dan gontract, bydd yn berthnasol i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n eu contractio ac, felly, bydd yn darparu'r fframwaith y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ei ddefnyddio i fesur ansawdd eu gwasanaethau'.

Yn olaf, cwestiynodd nifer o ymatebwyr pam na fydd y Ddyletswydd Ansawdd yn berthnasol i wasanaethau gofal sylfaenol neu gontractwyr.

## **Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau'n ddigon clir ynghylch y strwythurau llywodraethiant sydd eu hangen?**

### **a Chwestiwn 4: A fydd y strwythur llywodraethiant hwn yn cefnogi cyrff y GIG i gydymffurfio â'r ddyletswydd?**

Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n glir ynghylch y strwythurau llywodraethiant gofynnol ac a fyddent yn cefnogi cyrff y GIG i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd, codwyd thema arweinyddiaeth, diwylliant ac atebolrwydd yn gyson mewn sylwadau ar gyfer y ddau gwestiwn.



Gofynnodd nifer o ymatebwyr i Gwestiwn 4 am ragor o fanylion ynghylch sut y bydd cyrff y GIG yn destun craffu ac yn cael eu dal yn atebol am gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd. Amlygodd un ymatebydd y byddai angen aliniad rhwng y Ddyletswydd Ansawdd ac atebolrwydd proffesiynol.

Cododd un ymatebydd her sicrhau bod ansawdd yn cael ei gydnabod a'i berchenogi gan staff ar bob lefel sefydliad, a theimlai hefyd y '[bydd] angen i'r llwybr dirprwyo fod yn glir ... er mwyn sicrhau nad cyfrifoldeb yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Annibynnol yn unig fydd y Ddyletswydd.'

Wedi'i amlygu o dan thema gweithredu a chyflawni, roedd rhai ymatebwyr o'r farn efallai na fyddai'r strwythur llywodraethu a amlinellwyd yn 'trosi'n effaith weithredol ... [a] bydd yn dibynnu ar sut mae'r Ddyletswydd yn cael ei blaenoriaethu gan y sefydliad unigol'. Ategwyd hyn gan sylw arall a amlygodd y gallai fod yn anodd 'canfod a yw strwythurau llywodraethu yn ddigonol hyd nes [eu bod] yn cael eu gweld ar waith'. Gan adeiladu ar hyn, awgrymodd eraill y dylid monitro effeithiolrwydd y strwythurau llywodraethu yn barhaus.

Un awgrym a godwyd gan ymatebwyr oedd i'r canllawiau ddarparu enghraifft weledol neu ddiagram o strwythurau llywodraethu.

### **Cwestiwn 5: A yw'r canllawiau'n amlinellu'n glir lefel yr arweinyddiaeth sydd ei hangen mewn sefydliadau?**

Y thema a gododd fwyaf gan yr holl ymatebwyr oedd cyfathrebu ac ymgysylltu. Teimlai rhai bod cyfathrebu ac ymgysylltu â staff yn allweddol i'w gwneud yn ymwybodol o'r Ddyletswydd a'i gwreiddio. Dywedodd eraill y dylid cynnwys cynrychiolaeth o blith y cyhoedd yn y strwythurau arweinyddiaeth i 'gyfoethogi llais y dinesydd'. Ategwyd y pwynt hwn gan ymatebydd arall a gyfeiriodd at ganllawiau NICE ar wneud penderfyniadau ar y cyd a'r diffiniad o'r 'claf gyfarwyddwr', a fyddai'n hybu llais cryf i eiriol dros gleifion.

Cododd themâu arweinyddiaeth, diwylliant ac atebolrwydd, a gweithredu a chyflawni yn yr ymatebion i Gwestiwn 5 hefyd. Teimlai rhai y dylai'r canllawiau ar arweinyddiaeth gynnwys arweinyddiaeth amlbroffesiynol a gweithredol, tra teimlai ymatebydd arall y gellid ystyried mwy o bwyslais ar yr angen i holl staff y GIG chwarae rôl, sydd wedi'i godi'n flaenorol yn y bennod.

Teimlai rhai ymatebwyr fod angen mwy o fanylion ar y canllawiau a mynegont bryderon y gallai'r canllawiau, yn eu ffurf bresennol, arwain at ddehongliadau gwahanol i'r rhai sydd â ddyletswyddau arwain, ac o ganlyniad arwain at anghysondebau o ran gweithredu. Fodd bynnag, teimlai un ymatebydd y dylai sefydliadau gael yr hyblygrwydd i gymhwyso'r canllawiau yn lleol fel corff statudol. Yn olaf, er bod y canllawiau'n amlinellu lefel yr arweinyddiaeth yn glir, dywedodd un ymatebydd fod angen iddynt gynnwys mwy o wybodaeth i gefnogi'r bobl yn y rôl.

### **Cwestiwn 6: A yw hi'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am y ddyletswydd ansawdd mewn gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir?**

Canolbwyntiodd cwestiwn olaf y bennod ar wasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir. Arweiniodd hwn at y gwahaniaeth cytundeb mwyaf rhwng ymatebwyr yn y bennod, ond roedd dros 70% o ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol yn y lleoliadau hyn.

Y thema a gododd fwyaf yn y cwestiwn hwn oedd perthnasoedd â pholisïau a/neu ddarparwyr gwasanaeth eraill, fodd bynnag roedd amrywiaeth o themâu eraill yn bresennol yn y sylwadau.

Teimlai nifer o ymatebwyr y byddai angen amlinellu neu egluro cyfrifoldebau darparwyr gwasanaeth megis gofal cymdeithasol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) yn gliriach. Teimlai ymatebwyr eraill y gellid strwythuro a manylu ymhellach ar y maes hwn o'r canllawiau i'w wneud yn gliriach. Awgrymodd un ymatebydd y byddai 'crynodeb gweledol neu eirfa o wasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir a phwy sy'n gyfrifol amdanynt' yn ddefnyddiol ac yn ategu dealltwriaeth y cyhoedd.

Holodd ymatebwyr hefyd sut y byddai gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau a letyir yn cael eu dal yn atebol am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gofynnodd un ymatebydd, 'sut y bydd rheolwyr darparwyr allanol yn cael eu dwyn i gyfrif am ansawdd eu gwasanaethau'. Gofynnodd un arall sut y byddai corff y GIG sy'n comisiynu gwaith darparwr annibynnol yn sicrhau bod y prosesau ansawdd yn y sector annibynnol yn gadarn?'

## **Pennod 1 Ymateb y Llywodraeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r sgysiau sy'n amlwg yn gadarnhaol a heriol sy'n cael eu cynnal ar draws gofal iechyd yng Nghymru. Yr hyn sy'n hollbwysig o fewn y Ddyletswydd Ansawdd yw gwella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd i boblogaeth Cymru. Efen bwysig wrth gyflawni'r nodau hyn yw dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddyletswydd. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gofyn yn glir am fersiwn 'Hawdd ei Ddeall' o'r canllawiau statudol, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gomisiynu i gefnogi hyn.

Rydym yn cydnabod y galwadau am fwy o fanylion mewn sawl adran yn y canllawiau, gan gynnwys sut mae'r Ddyletswydd newydd yn rhyngweithio â deddfwriaeth a sectorau eraill, a'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn cyrff y GIG. Fel yr amlinellwyd yn y canllawiau, ni fwriedir i'r ddogfen fod yn rhagnodol, ac ni fwriedir iddi fod yn llawlyfr ansawdd nac yn ganllaw 'sut i' ychwaith. Mater i gyrff y GIG, yn y pen draw, yw bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd newydd i sicrhau gwelliant mewn ansawdd gwasanaethau iechyd a osodir arnynt o dan Ddeddf 2006, er y rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn darparu fframwaith defnyddiol i gynorthwyo cyrff o'r fath yn unol â hynny. Bydd hi'n bwysig bod cyrff y GIG yn datblygu ac yn berchen ar gyfrifoldebau a strwythurau arwain wrth roi'r Ddyletswydd newydd ar waith. Mae adnoddau ategol, megis deunyddiau hyfforddi, fideos ymwybyddiaeth a phosteri, wedi'u datblygu i gynorthwyo'r GIG â sefydlu a gweithredu trefniadau newydd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd.

Amlygodd yr ymgynghoriad sawl cais am fwy o eglurder ynghylch sut mae'r Ddyletswydd yn berthnasol o fewn trefniadau lletya a chomisiynu. I ategu'r ddealltwriaeth hon, mae geiriad ar sut mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i ofal sylfaenol wedi'i adolygu a'i gryfhau i egluro y bydd y Ddyletswydd yn berthnasol drwy gontractio â'r byrddau iechyd (fel yn achos Safon Iechyd a Gofal 2015).


Mae geiriad y paragraff ar y sector annibynnol (y cyfeirir ato fel y tu allan i'r GIG) wedi'i egluro gyda rhywfaint o ychwanegiad ynghylch y llwybr cymhwyso disgwylidig. O ystyried yr amrywiaeth mewn trefniadau comisiynu a lletya, ni allai'r canllawiau hyn roi eglurder ar bob senario ond fe'u cynlluniwyd i roi egwyddorion arweiniol i'w hystyried wrth sefydlu ac adolygu trefniadau.

Rydym hefyd yn adleisio sylwadau ar bwysigrwydd perchnogaeth gyfunol, a byddem yn disgwyl i gyrrff y GIG sicrhau bod pob aelod o staff yn berchen ar y Ddyletswydd Ansawdd. Rydym wedi sicrhau bod y canllawiau yn glir ynghylch pwysigrwydd rhannu cyfrifoldeb. Rydym hefyd yn croesawu'r sgwrs ar gyfathrebu ac ymgysylltu â staff a'r cyhoedd a byddem yn annog strwythurau o fewn cyrrff y GIG sy'n hybu llais y bobl yn eu gofal. Fel y crybwyllwyd eisoes, mater i gylch gorchwyl cyrrff y GIG yw sut mae hyn yn digwydd, gan nad yw'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i fanylu ar strwythurau mewnol.

Mae'r bennod ar fonitro a sicrwydd wedi'i hadolygu gyda rhywfaint o symleiddio i adlewyrchu rôl ddatblygol Gweithrediaeth y GIG a'u rôl o ran goruchwyllo'r GIG. Rydym yn cydnabod y cais am ddiagram ar strwythurau llywodraethu ond o ystyried yr ystod eang o fathau o sefydliadau yn y GIG yng Nghymru (yn ogystal ag ystyried trefniadau lletya), nid oes un diagram y gellid ei ddefnyddio fel canllaw. Bydd angen i gyrrff y GIG a'u byrddau fod yn sicr bod eu strwythurau mewnol yn darparu ar gyfer goruchwyllo cydymffurfedd â'r Ddyletswydd yn ddigonol, yn ogystal â dulliau adrodd clir.

## 5.2 Pennod 2: Diffinio Ansawdd

Roedd y bennod hon yn cynnwys un cwestiwn, a oedd yn gofyn i ymatebwyr a oedd y disgwyliadau o ran ansawdd yn glir o fewn diffiniadau'r chwe maes ansawdd.



Graffigyn 2.2: Cwestiynau Pennod 2, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

### **Cwestiwn 7: A yw'r disgwyliadau o ran ansawdd yn glir o fewn y diffiniad o ansawdd a'r chwe maes ansawdd?**

Teimlai traean o'r ymatebwyr (33%) nad oedd y disgwyliadau o ran ansawdd o fewn y diffiniad a'r chwe maes yn glir. Nododd ymatebwyr y gallai fod angen rhagor o fanylion a gwybodaeth yn yr adran hon o'r canllawiau, ac amlygodd eraill y gallai fod angen ailedrych ar derminoleg benodol yn yr adran hon, megis y defnydd o 'diogel', 'effeithlon', 'amserol' a 'manylebau gwasanaeth'.

Lluniodd un ymatebydd gymhariaeth rhwng y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a'r diffiniad/chwe maes ansawdd, ac amlygodd fod y cynnig newydd yn fyr iawn ac y gallai fod angen mwy o fanylion; roedd hwn yn ddatganiad a gefnogwyd gan eraill. Amlinellodd nifer o ymatebwyr y byddai'n anodd monitro a mesur a yw'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei chyflawni heb y manylion ychwanegol a'r wybodaeth greiddiol. Holodd un ymatebydd a ddylai safon ofynnol fodoli i gefnogi mesur y Ddyletswydd Ansawdd.

Rhoddodd ymatebwyr sylwadau hefyd am weithredu a chyflwyno'r diffiniad a'r chwe maes ansawdd. Teimlai ymatebwyr fod angen i'r canllawiau fod yn gliriach ac yn fwy cadarn o ran sut y bydd y meysydd yn cael eu gweithredu a'u defnyddio.

## Pennod 2 Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn cydnabod y galwadau am fwy o fanylion mewn sawl man yn y canllawiau. Fel yr amlinellwyd yn y canllawiau, ni fwriedir i'r ddogfen fod yn rhagnodol, ac ni fwriedir iddi fod yn llawlyfr ansawdd nac yn ganllaw 'sut i' ychwaith. Mater i gyrff y GIG yw bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd newydd i sicrhau gwelliant mewn ansawdd gwasanaethau iechyd a osodir arnynt yn Neddf 2006, er y rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn darparu fframwaith defnyddiol i gynorthwyo cyrff o'r fath yn unol â hynny.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y diffiniadau o'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd y mae'n ofynnol i gyrff y GIG eu "cymryd i ystyriaeth" wrth gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd newydd. Mae'r safonau newydd wedi'u datblygu mewn ymateb i alwad ers tro i adolygu ac adnewyddu Safonau Iechyd a Gofal presennol 2015. Ystyriwyd bod y safonau presennol yn orfanwl, ac yn anodd eu diweddarau, a'u bod yn canolbwyntio ar ofal eilaidd ac aciwt ac nad oeddent wedi'u gwreiddio'n ddigonol o ddull system gyfan. Nid oeddent yn cadw i fyny â datblygiadau yn yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan gyrff y GIG ac, felly, nid oeddent yn cael eu diweddarau yn amserol... Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd yn darparu bwriad lefel uchel o ran sut beth yw ansawdd da. Mae'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod yr egwyddorion lefel uchel yn gallu cael eu cymhwyso ar draws yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir. Bydd angen adolygu a diweddarau manylion y safonau gwasanaeth yn rheolaidd yn seiliedig ar arfer gorau ac, felly, nid y ddogfen hon sy'n cynnwys canllawiau statudol a'r safonau newydd yw'r lle ar gyfer disgrifio gweithredu ar y lefel hon. Mae hyrwyddo perchnogaeth ar yr egwyddorion o fewn y Safonau Ansawdd ac ystyried eu cymhwyso gan y gwasanaethau ac arbenigeddau amrywiol yn annog eu perchnogaeth ar y Safonau Ansawdd.

Amlygodd yr ymgynghoriad eiriad penodol o fewn y diffiniadau a oedd yn eithrio a/neu'n cyfyngu yn anfwriadol a, lle bo hynny'n briodol, mae hwn wedi'i ddiwygio.

### 5.3 Pennod 3: Galluogwyr Ansawdd

Gofynnodd yr adran hon o'r ymgynghoriad i ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y canllawiau'n glir ynghylch sut y bydd y pum galluogwr ansawdd yn cefnogi'r chwe maes ansawdd. Dilynodd hyn gan ofyn i ymatebwyr a oeddent o'r farn y dylid ystyried unrhyw alluogwyr ansawdd eraill, a pha offer a deunyddiau ategol fydd yn cynorthwyo cyrff y GIG i gyflawni eu Dyletswydd Ansawdd.

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C8 Rydym wedi amlinellu pum galluogwr ansawdd sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i helpu i roi'r chwe maes ansawdd ar waith. A yw'r eglurhad hwn yn glir yn y canllawiau?	29	79%	21%	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	17
				Amser, Staffio ac Adnoddau	16
				Gweithredu a Chyflawni	11
C9 A oes 'galluogwyr' posibl eraill y dylem ystyried eu cynnwys yn y canllawiau?	31	58%	42%	Hyfforddi a Datblygu	11
				Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	9
C10 Pa adnoddau a deunyddiau ategol fydd yn helpu cyrff y GIG i gyflawni eu dyletswydd ansawdd o dan y Ddeddf?	26			Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	8
				Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	7

Graffigyn 3.1: Cwestiynau'r bennod, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

## **Cwestiwn 8: Rydym wedi amlinellu pum galluogwr ansawdd sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i helpu i roi'r chwe maes ansawdd ar waith. A yw'r eglurhad hwn yn glir yn y canllawiau?**

Roedd y themâu a gododd o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i Gwestiwn 7. Gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o eglurder a gwybodaeth mewn rhai o ddiffiniadau'r galluogwyr ansawdd, megis:

- i. Arweinyddiaeth llawn gweledigaeth a thosturiol o fewn galluogwr Arweinyddiaeth.
- ii. Mwy o fanylion am sut mae sefydliadau'r GIG yn rhannu dysgu – beth yw'r dull ar gyfer hyn y tu allan i'r sefydliadau unigol a sut y gellid gweithredu'r dull hwn a chynnwys darparu'r iechyd ehangach o fewn galluogwr Safbwynt Systemau Cyfan; ac
- iii. Ehangu'r galluogwr Dysgu, Gwella ac Ymchwil i gynnwys yn glir yr angen am reoli newid yn effeithiol, dan reolaeth dda. (Mewn ymateb i Gwestiwn 9).

*Gwnaed sylwadau hefyd am ddiffiniad y galluogwr ansawdd 'Mesur', ond ers hynny, mae hwn wedi'i newid i 'Gwybodaeth'.*

Awgrymodd un ymatebydd y byddai darparu enghreifftiau o sut y bydd y galluogwyr ansawdd yn cynorthwyo â gweithredu'r chwe maes yn arf defnyddiol.

Cafodd gweithredu a chyflwyno'r galluogwyr ansawdd ei godi hefyd gan nifer o ymatebwyr a theimlwyd bod angen mwy o fanylion am sut y bydd y galluogwyr yn galluogi ansawdd a newid cadarnhaol o fewn y GIG. Amlygodd un ymatebydd y bydd ymgorffori'r cysyniadau yn cymryd blynyddoedd ac awgrymodd 'y dylid annog cyrff y GIG i osod [strategaethau] ansawdd hirdymor i ddangos pryd y maent yn disgwyl gwireddu'r [Ddyletswydd] yn llawn'.

## **Cwestiwn 9: A oes 'galluogwyr' posibl eraill y dylem ystyried eu cynnwys yn y canllawiau?**

Teimlai 58% o gyfranogwyr fod galluogwyr ansawdd ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y canllawiau. O'u hymatebion, cododd tri maes thematig o awgrymiadau ymatebwyr am alluogwyr ansawdd ychwanegol i'w cynnwys yn y canllawiau. Amser, staffio ac adnoddau; arweinyddiaeth, diwylliant, ac atebolrwydd; a chyfathrebu ac ymgysylltu oedd y rhain. Mae rhai enghreifftiau o awgrymiadau ymatebwyr wedi'u rhestru isod:

- i. Seilwaith digidol a rhannu data ar draws sefydliadau.
- ii. Datblygiad diwylliannol, diogelwch, a seilwaith gwella.
- iii. Cynllunio a chynaliadwyedd y gweithlu.
- iv. Myfyrio, defnyddio profiad i lywio datrys problemau a dysgu; a
- v. Chynnwys cleifion a rhanddeiliaid, cyd-gynhyrchu a gwneud penderfyniadau.

*Yn ogystal â'r awgrymiadau hyn, gellid ystyried yr ymatebion a amlinellwyd yng nghrynodeb Cwestiwn 8.*

Yn olaf, awgrymodd ymatebwyr y dylid adolygu'r galluogwyr yn rheolaidd a gofynnodd un a ellid eu diwygio gydag amser fel yr oedd anghenion ac adolygiadau o'r Ddyletswydd Ansawdd yn ei nodi.

## **Cwestiwn 10: Pa adnoddau a deunyddiau ategol fydd yn helpu cyrff GIG i gyflawni eu dyletswydd ansawdd o dan y Ddeddf?**

Roedd y tair thema a ddaeth i'r amlwg yn rheolaidd o'r cwestiwn hwn yn gysylltiedig â'r ymatebion. Teimlai ymatebwyr y byddai hyfforddiant a datblygiad yn allweddol i sicrhau bod cyrff y GIG yn cyflawni eu Dyletswydd Ansawdd. I ategu hyn, bydd cyfathrebu ac ymgysylltu â staff yn allweddol i wreiddio ymwybyddiaeth a gwybodaeth ac, yn olaf, bydd angen i ddigon o adnoddau a sgiliau fod ar gael i sicrhau bod y Ddyletswydd yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.

Amlygodd ymatebwyr rai awgrymiadau ynghylch hyfforddiant, gan gynnwys y dylai fod yn orfodol drwy'r Cofnod Staff Electronig, y dylai fod ar gael i'r holl staff, ac y dylai hyfforddiant manylach fod ar gael i staff sydd â chyfrifoldeb gweithredol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd. Roedd hyn yn cysylltu â thema cyfathrebu ac ymgysylltu, gan fod rhai wedi amlygu y bydd angen i'r deunyddiau hyfforddi fod yn hygyrch a darparu lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth. Hefyd, teimlwyd y bydd angen i'r adnoddau megis cyflwyniadau, posterï a fideos gael eu coladu a'u rhannu gyda staff fel rhan o strategaeth gyfathrebu.

Amlygodd sawl ymatebydd y bydd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r Ddyletswydd yn llwyddiannus, tra gofynnodd eraill pa adnoddau ychwanegol fydd ar gael. Awgrymodd un ymatebydd asesiadau lleol i nodi'r seilwaith sydd ei angen i 'gasglu, monitro a sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd ... gwasanaethau, ar gael yn hwylus i'r boblogaeth'. Cafodd pwynt tebyg ei godi gan ymatebydd arall, a amlygodd y byddai angen ystyried y gweithlu fel arf, a byddai angen y sgiliau cywir arnynt i 'reoli'n briodol y data, y wybodaeth a'r ymchwil a wneir i fesur a monitro ansawdd'. Awgrymwyd hefyd y byddai angen i dimau Gwella Ansawdd gefnogi gwasanaethau tra bo'r Ddyletswydd yn cael ei gwreiddio.

### **Pennod 3 Ymateb y Llywodraeth**

Yn yr un modd â'r bennod flaenorol, mae'r safonau yn y canllawiau hyn wedi'u datblygu'n fwriadol er mwyn caniatáu hyblygrwydd wrth eu cymhwyso a'u diweddarau yng ngoleuni natur eang a chymhleth y gwasanaethau. Bwriedir i'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal fod yn ystyrlon i boblogaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen rhagor o fanylion i ategu'r egwyddorion lefel uchel. Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a sefydliadau priodol eraill i sefydlu lleoliad y manylion hyn a'u heffaith ar adrodd ac arolygu.

Trwy ymgynghori ac ymgysylltu ehangach, bu galw cyson i gryfhau'r bwriad i'r gweithlu o fewn y safonau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl arwyddocaol y mae'r gweithlu'n ei chwarae ym mhob agwedd ar ansawdd ac, felly, ychwanegwyd safon ansawdd / galluogwr ychwanegol sy'n manylu'n benodol ar safonau ansawdd y gweithlu. Cafodd awgrymiadau eraill am alluogwyr ansawdd posibl eu cynnwys naill ai trwy eu haralleirio neu ystyriwyd eu bod wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y testun presennol.

Rydym yn croesawu'r sylwadau ar hyfforddiant a deunyddiau ategol a, thrwy'r rhaglen weithredu, mae hyfforddiant wedi'i deilwra i wahanol rolau a chyfrifoldebau wedi'i ddatblygu a bydd ar gael i holl staff y GIG a gofal sylfaenol. Yn ogystal, mae deunydd cyfathrebu megis fideos ymwybyddiaeth a phosterï wedi'u datblygu i gynorthwyo cyrff y GIG â chyfathrebu a chydymffurfio â'r Ddyletswydd. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael trwy lwyfannau dysgu a

chyfathrebu sefydledig. Mae adnoddau ychwanegol yn cael eu cynllunio gan y GIG yn unol ag adborth a cheisiadau a ddaeth i law.

#### 5.4 Pennod 4: Safonau Ansawdd

Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn gofyn am farn cyfranogwyr ar eglurder ac ar gyflwyno'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd (2023).

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C11 Mae'r Safonau Ansawdd 2023 newydd wedi'u seilio ar ddyheadau lefel uchel drwy'r chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd. A yw'r safonau ansawdd yn glir?	25	76%	24%	Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	27
				Gweithredu a Chyflawni	17
				Cyfathrebu ac Ymgysylltu	14
C12 A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut y bydd Safonau Ansawdd 2023 yn helpu i ddatblygu'r system rheoli ansawdd ac i asesu cynnydd o ran y ddyletswydd ansawdd?	26	69%	31%	Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	13
				Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	4
C13 A ydych yn credu mai cyflwyno'r model newydd ar gyfer Safonau Ansawdd 2023 a thynnu Safonau Iechyd a Gofal 2015 yn ôl yw'r cam priodol i'w gymryd?	27	78%	22%	Amser, Staffio ac Adnoddau	3
				Hyfforddi a Datblygu	2
C14 Ydych chi'n meddwl y byddai cyfnod pontio'n ddoeth i gyrrff y GIG wrth fabwysiadu'r meysydd a'r galluogwyr Ansawdd newydd?	26	77%	23%		
C15 A yw'r canllawiau'n glir o ran sut byddai corff GIG yn bodloni'r chwe cham sydd wedi'u rhestru uchod?	28	71%	29%		

Graffigyn 4.1: Cwestiynau Pennod 4, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na ydynt a themâu a nodwyd.

#### **Cwestiwn 11: Mae'r Safonau Ansawdd 2023 newydd wedi'u seilio ar ddyheadau lefel uchel drwy'r chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd. A yw'r safonau ansawdd yn glir?**

#### **Cwestiwn 12: A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut y bydd Safonau Ansawdd 2023 yn helpu i ddatblygu'r system rheoli ansawdd ac i asesu cynnydd o ran y ddyletswydd ansawdd?**

#### **Cwestiwn 13: A ydych yn credu mai cyflwyno'r model newydd ar gyfer Safonau Ansawdd 2023 a thynnu Safonau Iechyd a Gofal 2015 yn ôl yw'r cam priodol i'w gymryd?**

Mae tri chwestiwn cyntaf y bennod hon wedi'u grwpio gyda'i gilydd oherwydd bod yr un meysydd thematig yn dod i'r amlwg yn gyson o'r sylwadau. Roedd datganiadau a ddarparodd ymatebwyr i'r cwestiynau hyn yn debyg i'r rhai a ddarparwyd ar gyfer cwestiynau 7 ac 8. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai'r diffyg manylion yn y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd (2023) arwain at ddehongliadau amrywiol ac anghysondebau o ran gweithredu, a allai wedyn arwain at heriau o ran mesur ansawdd ac adrodd arno. Fel yr amlygwyd ym Mhennod 7, gwnaed cymariaethau unwaith eto rhwng lefel y manylder yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd. Teimlai rhai y byddai mwy o ddiffiniad o'r hyn y mae 'da' yn ei olygu yn ddefnyddiol, a nododd eraill y byddai cynnwys enghreifftiau yn cynorthwyo dealltwriaeth.

Yn yr un modd â chwestiynau 7 ac 8, amlygodd ymatebwyr hefyd fod angen mwy o ystyriaeth a manylion ynghylch gweithredu a chyflwyno'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd a

chysyniadau ategol. Amlygodd eraill y byddai angen darparu mwy o eglurder ynghylch y pontio o'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) i'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023).

#### **Cwestiwn 14: Ydych chi'n meddwl y byddai cyfnod pontio'n ddoeth i gyrff y GIG wrth fabwysiadu'r meysydd a'r galluogwyr Ansawdd newydd?**

Dywedodd nifer o ymatebwyr na fyddai cyfnod pontio'n ddoeth wrth fabwysiadu'r meysydd ansawdd a'r galluogwyr newydd, a dywedasant y gallai hynny fod yn wrthgynhyrchiol neu'n ddryslyd i staff. Fe wnaeth ymatebydd arall gwestiynu a fyddai meysydd neu alluogwyr penodol yn cael eu cyflwyno fesul cam ac, os felly, sut y penderfynir ar hyn. Gofynnodd un ymatebydd hefyd am ragor o fanylion am amserlen cyfnod pontio arfaethedig a pha mor hir y bydd hwn yn para.

Cododd sylwadau o themâu lluosog mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gan yr holl ymatebwyr. Amlygwyd y bydd angen ffiniau clir ar y cyfnod pontio a byddai angen cytuno ar gwmpas yr hyn sydd yn y cyfnod pontio. Yn dilyn hyn, bydd angen rhannu gwybodaeth yn eang a bydd angen i'r holl staff cysylltiedig ei deall. Awgrymwyd hefyd y gellid ymgynghori ymhellach yn ystod y cyfnod pontio i amlygu unrhyw faterion neu broblemau y mae angen mynd i'r afael â hwy. A hwythau'n adeiladu ar y pwynt hwn, teimlai eraill y gallai'r cyfnod pontio gynnig cyfle i ddatblygu data i ategu ansawdd a gwelliant ac amlygu arfer da.

Amlygodd un ymatebydd y bydd angen ystyried sut mae darparwyr gwasanaethau eraill 'yn addasu i'r ddeddfwriaeth newydd, yn enwedig [y rhai] sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd', yn ystod y cyfnod pontio.

#### **Cwestiwn 15: A yw'r canllawiau'n glir o ran sut byddai corff GIG yn bodloni'r chwe cham sydd wedi'u rhestru uchod?**

Gofynnodd y cwestiwn hwn i ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod y canllawiau'n glir o ran sut byddai cyrff y GIG yn cyflawni'r chwe cham canlynol: sicrhau cefnogaeth y bwrdd; asesu parodrwydd; sicrhau cefnogaeth ehangach gan y sefydliad a chreu gweledigaeth ar y cyd; datblygu seilwaith a sgiliau gwella; cysoni a chydlynu gweithgarwch; a chynnal dull gweithredu ar draws y sefydliad.

Cododd ceisiadau am ragor o eglurder a gwybodaeth yn y cwestiwn hwn, gan fod ymatebwyr o'r farn y gallai sefydliadau ddehongli'r camau'n wahanol o ganlyniad i lefel bresennol y manylder. Amlygodd ymatebwyr y gallai defnyddio enghreifftiau gefnogi dealltwriaeth ac, yn fwy penodol, byddai enghraifft o sut i weithredu System Rheoli Ansawdd gydgysylltiedig yn ddefnyddiol. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod angen rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys cleifion a chydweithio rhwng sefydliadau. Teimlont fod rhannu arfer da yn allweddol a theimlai un ymatebydd 'y byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod Byrddau Iechyd ledled Cymru yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ynghylch gweithredu' ac yn datblygu diwylliant o 'ddysgu parhaus'.

Yn olaf, daeth sylwadau am amser, staffio ac adnoddau i'r amlwg sawl gwaith o fewn y cwestiwn hwn. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i gynllunio'r gweithlu a chynaliadwyedd yn y canllawiau. Cyfeiriodd ymatebydd arall at y canllawiau gan ddatgan, 'dylai parodrwydd a chymorth ariannol i ddatblygu sgiliau a seilwaith ar gyfer gweithredu ategu hyn' a holodd a yw'r cymorth ariannol ar gael yn yr hinsawdd bresennol. Os nad yw ar gael, roedd o'r farn bod risg bod cyrff y GIG yn cael eu paratoi yn anochel i fethu â gallu cyflawni'r Ddyletswydd.



## **Pennod 4 Ymateb y Llywodraeth**

Fel yn y bennod flaenorol, rydym yn cydnabod y galwadau am fwy o fanylder mewn sawl man yn y canllawiau. Fel yr amlinellwyd yn y canllawiau eu hunain, ni fwriedir i'r ddogfen fod yn rhagnodol, ac ni fwriedir iddi fod yn llawlyfr ansawdd nac yn ganllaw 'sut i' ychwaith. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Newydd. Mae'r safonau newydd wedi'u datblygu mewn ymateb i alwad ers tro i adolygu ac adnewyddu Safon Iechyd a Gofal Bresennol 2015. Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Newydd yn darparu bwriad lefel uchel o ran sut beth yw ansawdd da. Mae'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod yr egwyddorion lefel uchel yn gallu cael eu cymhwyso ar draws yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir. Mae'r dull hwn hefyd yn berthnasol i'r systemau rheoli ansawdd a fydd yn cael eu datblygu a'u cryfhau gan y GIG mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr ymatebion cymysg yn gysylltiedig â chyfnod pontio posibl ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Newydd. Rydym yn cydnabod bod datblygu a gwella ein diwylliant ansawdd yn broses barhaus sy'n cymryd amser ac sy'n newid yn barhaus. Nid yw'r newid mewn safonau yn ddibwys o gwbl yn y cyd-destun hwn.

Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r adborth o'r ymgynghoriad a bwriad y Ddyletswydd o fewn y cyd-destun gofal iechyd presennol a'r paramedrau cyfreithiol a gymhwysir gan y ddeddfwriaeth, teimlwn nad yw'r achos dros gyfnod pontio wedi'i ddadlau. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn darparu ffocws mawr ei angen ar berfformiad a gwelliant gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth gofal iechyd bresennol yn y wlad o dan bwysau aruthrol ac mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cynnig dull i gefnogi'r GIG ar hyn o bryd drwy amlinellu'r uchelgais ar gyfer cyflawni gwell ansawdd gwasanaethau iechyd a fframwaith i gyflawni'r gwaith sydd ei angen. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai oedi neu weithredu fesul cam ond yn golygu na fyddai'r cymorth posibl o'r Ddyletswydd ar waith am gyfnod hwy ac na fyddai unrhyw ddull gweithredu o'r fath yn gwarantu gwelliant o ran gweithredu neu barodrwydd.

## 5.5 Pennod 5: Gofyniad Adrodd Ansawdd

Gofynnodd yr adran hon i ymatebwyr a yw'r canllawiau'n glir o ran diffinio'r hyn a olygir wrth adrodd 'ar waith bob amser' ac a yw'r systemau adrodd arfaethedig yn ddigonol i gyrff y GIG roi sicrwydd i'w poblogaeth ac i Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C16 A yw'r canllawiau'n glir ynghylch beth a olygir wrth adrodd 'ar waith bob amser'?	29	79%	21%	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	13
				Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	9
C17 A yw'r systemau adrodd arfaethedig ('ar waith bob amser' ac adroddiad blynyddol naratif) yn ddigon i gyrff y GIG sicrhau Gweinidogion Cymru a'r cyhoedd?	28	54%	46%	Amser, Staffio ac Adnoddau	8
				Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	7
				Gweithredu a Chyflawni	3
				Perthynas â Pholisiau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	3
				Hyfforddi a Datblygu	2

Graffigyn 5.1: Cwestiynau Pennod 5, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

### **Cwestiwn 16: A yw'r canllawiau'n glir ynghylch beth a olygir wrth adrodd 'ar waith bob amser'?**

Mae thema cyfathrebu ac ymgysylltu yn codi drwy gydol y bennod hon, a chododd nifer o ymatebwyr ymholiad, pryder neu awgrym ynghylch canllawiau a phroses 'ar waith bob amser'.

Holwyd pa mor hygyrch a dealladwy fydd yr adroddiadau i'r cyhoedd, ac a fyddent yn cael cyfle i roi eu hadborth. Teimlai rhai bod angen mwy o fanylion am ofynion 'ar waith bob amser', a gofynnodd un ymatebydd ai'r term 'ar waith bob amser' oedd yr iaith symlaf i'r cyhoedd ei deall a theimlai y gallai hyn gael ei ddehongli'n oddrychol.

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y byddai angen ystyried amser, staffio ac adnoddau er mwyn sicrhau bod adrodd 'ar waith bob amser' yn ystyrion ac yn effeithiol ac nad yw'n 'llethu pobl dan ddata' fel y dywedodd un ymatebydd. Awgrymwyd hefyd y bydd angen cynnal asesiadau lleol cyn gweithredu er mwyn gwerthuso pa mor barod yw sefydliadau a'r seilwaith sydd ar gael iddynt. Teimlai ymatebydd arall y byddai angen 'datblygiad ar draws y fframwaith llywodraethu clinigol cyfan gan gynnwys mynediad at ddata a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant'.

### **Cwestiwn 17: A yw'r systemau adrodd arfaethedig ('ar waith bob amser' ac adroddiad blynyddol naratif) yn ddigon i gyrff y GIG sicrhau Gweinidogion Cymru a'r cyhoedd?**

Amlygodd y cwestiwn hwn gyferbyniad clir yn yr ymatebion, gyda 46% yn teimlo nad oedd systemau adrodd arfaethedig yn ddigonol i gyrff y GIG sicrhau Gweinidogion Cymru a'r cyhoedd.

Fel yr amlygwyd yn flaenorol yn yr ymatebion i gwestiwn 16, roedd sylwadau'n pwysleisio ei bod hi'n allweddol i wybodaeth fod yn hygyrch ac yn ddealladwy i bawb. Gofynnodd un ymatebydd am ragor o fanylion ynghylch sut a ble y bydd y cyhoedd yn gallu cael gafael ar adroddiadau. Tynnodd eraill sylw at y term 'straeon cleifion' yn y canllawiau. Teimlent y byddai angen lefel o gyd-gynhyrchu

gyda chleifion/defnyddwyr gwasanaeth, ac y byddai angen iddynt fod yn rhan ganolog o'r prosesau adrodd gyda'r cyfle i roi adborth. Awgrymwyd y dylid ffurfioli hyn yn y canllawiau.

Cododd thema arweinyddiaeth, diwylliant ac atebolrwydd o'r sylwadau yn y cwestiwn hwn hefyd. Pwysleisiodd un ymatebydd 'na ddylid ystyried bod yr adroddiadau blynyddol yn gasgliad, ond yn hytrach eu bod yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth bellach'. Awgrymwyd hefyd y '[dylai] gwelliant mewn canlyniadau ar lefel leol fod yn gysylltiedig â rhaglenni gwella ansawdd neu drawsnewid cenedlaethol/lleol' ac ategodd ymatebydd arall y pwynt hwn, gan awgrymu y gallai trosolwg cenedlaethol o ansawdd, wedi'i ddarparu gan y system Rheoli Ansawdd Genedlaethol a reolir fel rhan o Weithrediaeth y GIG, ategu'r gofynion adrodd.

Yn yr un modd ag ymatebion i gwestiwn 16, daeth thema staffio, amser ac adnoddau i'r amlwg hefyd. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y bydd datblygu sgiliau, systemau a gwybodaeth cyn gweithredu yn allweddol er mwyn i'r gofynion adrodd fod yn llwyddiannus. I bwysleisio hyn, dywedwyd y bydd angen i adnoddau a chefnogaeth ddigonol fod ar waith ac y byddai ar staff angen y galluoedd a'r capasiti i ddadansoddi a deall y wybodaeth i gynhyrchu'r adroddiadau.

## **Pennod 5 Ymateb y Llywodraeth**

Cafwyd adborth clir gan gyrff y GIG ynghylch eu profiad o'r Datganiad Ansawdd Blynyddol blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y farn a fynegwyd, sef na ddylai adrodd ar ansawdd gael ei gyfyngu i broses diwedd blwyddyn. Cydnabyddir bod gwybodaeth sylweddol am wasanaethau eisoes yn cael ei chynhyrchu a'i hadrodd yn gyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r adborth a gafwyd, sef y dylai gwybodaeth fod yn hygyrch, yn ddibynadwy, yn ystyrlon ac y dylai gael ei diweddarau'n amserol fel bod gwybodaeth briodol yn llywio ansawdd. Y bwriad yw defnyddio nifer gyfyngedig o ddangosyddion a mesurau ansawdd dibynadwy yn y lle cyntaf ac adeiladu ar hyn yn unol â methodoleg gwella. Dylid rhannu gwybodaeth briodol sy'n gysylltiedig ag ansawdd o fewn sefydliadau yn ogystal â gyda'r boblogaeth yng Nghymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. I'r perwyl hwnnw, rydym yn croesawu'n fawr alwadau am fwy o gyfranogiad gan y cyhoedd yn y broses adrodd ar ansawdd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd adrodd 'ar waith bob amser' yn esblygu gydag amser. Mae fframwaith adrodd ansawdd wrthi'n cael ei ddatblygu i ategu'r canllawiau statudol. Mae natur ystywyth y ffordd y bydd adrodd 'ar waith bob amser' yn datblygu yn golygu na themlir mai'r canllawiau statudol yw'r lle priodol i gynnwys y fframwaith adrodd ar ansawdd.

Rydym hefyd yn cydnabod y sylwadau am yr adnoddau y mae eu hangen i ddatblygu a chynnal y prosesau hyn ond byddem yn pwysleisio, yn enwedig yn gysylltiedig ag adrodd, nad yw'r Ddyletswydd yn pennu unrhyw fesurau ansawdd newydd a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylid defnyddio prosesau a mesurau presennol i gefnogi adrodd. Bwriad unswydd hyn yw lleihau'r angen am adnoddau. Bydd angen i'r GIG fuddsoddi mewn ansawdd (a'r ddyletswydd newydd hon), ond rydym yn disgwyl yn aml y bydd y buddsoddiad hwn yn arbed costau gydag amser wrth i wasanaethau ddod yn fwy effeithlon. Mae gwasanaethau o ansawdd uwch hefyd yn lleihau'r angen am wario arian ar ganlyniadau ansawdd gwael, megis rheoli niwed y gellir ei osgoi ac arosiadau hirach. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (2021) a'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (2021); mae data yn rhan annatod o'r ddau Fframwaith hyn.

## 5.6 Pennod 6: Gwneud Penderfyniadau, Monitro a Sicrwydd

Gofynnodd yr adran hon o'r ymgynghoriad i ymatebwyr a oedd y canllawiau'n glir ynghylch cyfrifoldebau cyfun y Bwrdd a sut y bydd monitro'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei ymgorffori yng ngweithdrefnau presennol Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C18 A yw'r canllawiau'n glir ynghylch cyfrifoldeb cyfun y Bwrdd i sicrhau: • penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ansawdd • cymhwyso'r ddyletswydd ansawdd ar draws y system gyfan • canolbwyntio ar ddysgu ac ar wella ansawdd mewn modd cynaliadwy • sicrhau gwasanaethau o ansawdd gwell a chanlyniadau gwell i bobl • monitro priodol yn digwydd i sicrhau bod gwelliannau o ansawdd yn cael eu cynnal	29	72%	28%	Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	8
				Gweithredu a Chyflawni	6
				Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	5
				Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	2
				Cyfathrebu ac Ymgysylltu	2
				Amser, Staffio ac Adnoddau	1
				Hyfforddi a Datblygu	1
C19 A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut bydd monitro'r ddyletswydd ansawdd yn rhan annatod o weithdrefnau presennol Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru?	27	81%	19%		

Graffigyn 6.1: Cwestiynau Pennod 6, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

### **Cwestiwn 18: A yw'r canllawiau'n glir ynghylch cyfrifoldeb cyfun y Bwrdd i sicrhau:**

- penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ansawdd • cymhwyso'r ddyletswydd ansawdd ar draws y system gyfan • canolbwyntio ar ddysgu ac ar wella ansawdd mewn modd cynaliadwy • sicrhau gwasanaethau o ansawdd gwell a chanlyniadau gwell i bobl • monitro priodol yn digwydd i sicrhau bod gwelliannau o ansawdd yn cael eu cynnal

Fel yr amlygwyd yn y graffigyn uchod, thema arweinyddiaeth, diwylliant ac atebolrwydd ddaeth i'r amlwg amlaf yn y bennod hon. Yn fwy penodol, yng nghwestiwn 18, gofynnodd ymatebwyr am ragor o fanylion am atebolrwydd sefydliadau pan fydd y Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei pheryglu dro ar ôl tro. Teimlai un ymatebydd y byddai angen monitro digonol a chanlyniadau pe byddai methiant. Gofynnodd un arall pwy fyddai'n gyfrifol am benderfynu a oedd sefydliad yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd.

Gallai'r sylwadau a amlinellir yn y paragraff hwn ymwneud â chwestiwn 17 hefyd. Codwyd pryderon gan ymatebwyr yn gysylltiedig â'r datganiadau 'adolygu gan gymheiriaid' a 'hunanasesiad' yn y canllawiau. Er y cydnabuwyd y gallai hyn fod yn ddefnyddiol, teimlai un ymatebydd y gallai fod rhywfaint o duedd yn y dull hwn a theimlai un arall nad yw hunanasesiad yn 'ddigonol i sicrhau ansawdd, cysondeb na dysgu'. Holwyd hefyd a fydd defnyddwyr gwasanaeth yn gallu rhoi adborth i'r broses hon.

Teimlai'r ymatebwyr hefyd fod angen mwy o fanylion ynghylch sut y bydd yr adran hon o'r canllawiau yn cael ei chyflawni a'i gweithredu. Gofynnodd un ymatebydd 'a fydd AGIC yn glir ynghylch y disgwyliadau ar gyfer y sector annibynnol'.

## **Cwestiwn 19: A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut bydd monitro'r ddyletswydd ansawdd yn rhan annatod o weithdrefnau presennol Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru?**

Daeth themâu tebyg i'r amlwg o'r cwestiwn hwn i'r rhai a godwyd yng nghwestiwn 18. Gofynnodd yr ymatebwyr am ragor o fanylion ynghylch gweithredu a chyflawni'r adran hon o'r canllawiau. Holodd ymatebwyr hefyd pa ddulliau presennol sydd ar waith yn Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a fydd yn galluogi'r gwaith o fonitro'r Ddyletswydd i gael ei ymgorffori. Gofynnodd un ymatebydd sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi adborth ar gynnwys yr adroddiadau blynyddol ac 'ar waith bob amser', er mwyn hwyluso gwelliant parhaus.

Yn olaf, gofynnodd nifer o ymatebwyr am rôl Gweithrediaeth y GIG, a gofynnodd eraill sut y bydd y Ddyletswydd yn rhyngwynebu â phrosesau'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).

### **Pennod 6 Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd, ochr yn ochr â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a Chorff newydd Llais y Dinesydd (Llais), wedi'i dylunio i ddatblygu'n gadarnhaol y diwylliant ansawdd a diogelwch o fewn gofal iechyd yng Nghymru. Mae holl elfennau'r Ddeddf yn ceisio hybu mwy o ddidwylledd a dysgu, gan hyrwyddo diwylliant lle y mae'n arferol herio arfer gwael a hybu arloesedd mewn amgylchedd diogel. Felly, ni theimlir bod mesurau cosbol am fethu â chydymffurfio yn ddefnyddiol i hyrwyddo'r diwylliant hwn. Mae'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth yn amlinellu gofynion clir ar gyfer adrodd a goruchwyllo yng nghyd-destun GIG sy'n dysgu. Bydd gan Weithrediaeth ddatblygol y GIG, ochr yn ochr â Gweinidogion ac AGIC, rôl yn y gwaith o fonitro perfformiad yn erbyn y Ddyletswydd, gan gynnwys rhoi adborth i gyrrf y GIG, ond o fewn cyd-destun hyrwyddo gwelliant a rhannu dysgu.

### 5.7 Pennod 7: Aseidiadau Effaith Integredig

Gofynnodd yr adran hon am farn ymatebwyr am y ffordd y gallai'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), gwahaniaethau iechyd neu grwpiau agored i niwed.

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C20 Beth yw eich barn chi am y ffordd y gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar y canlynol? • pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010; • gwahaniaethau iechyd; neu • grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas. Rhowch eich sylwadau yma:	26			Cyfathrebu ac Ymgysylltu	7
				Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	4
				Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	3
				Amser, Staffio ac Adnoddau	1
				Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	1

Graffigyn 7.1: Cwestiynau Pennod 7, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

## **Cwestiwn 20: Beth yw eich barn chi am y ffordd y gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar y canlynol?**

- pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010; • gwahaniaethau iechyd; neu • grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas.

Teimlai nifer o ymatebwyr fod potensial gan y cynigion yn yr ymgynghoriad i gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau a amlinellir. Cydnabu ymatebwyr yr ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn ystod y broses ymgynghori. Fodd bynnag, gofynnwyd am fwy o fanylion ynghylch pa grwpiau a'r mewnbwn a'r adborth a ddarparwyd ganddynt. Unwaith eto, daeth cyfathrebu ac ymgysylltu i'r amlwg o sylwadau'r ymatebwyr ac, yn fwy penodol, yr angen i wybodaeth fod yn hygyrch, gan ystyried a darparu ar gyfer anghenion cyfathrebu'r unigolyn. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd/defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gweithredu'n llwyddiannus, a theimlai un ymatebydd y byddai adborth rhyngweithiol yn ddefnyddiol i lywio gwelliant parhaus.

## Pennod 7 ac 8 Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu'r sylwadau a'r sgwrs ar sut y bydd y Ddyletswydd yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig ac rydym yn adleisio'r sylwadau ar sut mae'r Ddyletswydd yn cefnogi gwell tegwch â'r Gymraeg. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r canllawiau, ceisiwyd mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid, yn bennaf drwy'r llwybrau llywodraethu ac adrodd ffurfiol a sefydlwyd o fewn Llywodraeth Cymru.

Rydym yn annog cyrff y GIG ledled Cymru i barhau i ymgysylltu â'u poblogaethau i ddeall yn well anghenion pobl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau a'r hyn yr hoffent ei wybod am ansawdd gwasanaethau.

### 5.8 Pennod 8: Aseidiadau Effaith Integredig (yr iaith Gymraeg)

Gofynnodd yr adran hon o'r ymgynghoriad i ymatebwyr am eu barn ar yr effeithiau y byddai'r Ddyletswydd Ansawdd yn eu cael ar y Gymraeg.

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C21 Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd ansawdd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er enghraifft, beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? Rhwng eich sylwadau yma:	24			Amser, Staffio ac Adnoddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu Hyfforddi a Datblygu	8 6 3
C22 Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y ddyletswydd ansawdd arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac osgoi effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	18				

Graffigyn 8.1: Cwestiynau Pennod 8, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

**Cwestiwn 21: Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd ansawdd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Er enghraifft, beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 22: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y ddyletswydd ansawdd arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac osgoi effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Teimlwyd y gallai'r Ddyletswydd Ansawdd gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, ac roedd consensws ymhlith ymatebwyr y byddai cynnig cyfathrebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth. Amlygodd un ymatebydd fel a ganlyn: 'o ran y meysydd; dylai 'teg' ysgogi gwelliannau mewn cyfleoedd i bobl ddefnyddio [yr iaith] Gymraeg'.

Fodd bynnag, amlygodd nifer o ymatebwyr y bydd gweithredu hyn yn ymarferol yn dibynnu ar amser, staff ac adnoddau. Teimlai un ymatebydd efallai na fyddai'n gwbl gyraeddadwy o fewn y seilwaith presennol. Pwysleisiwyd y pwynt hwn gan ymatebydd arall a ddywedodd 'bydd gwir ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn angen sgiliau Cymraeg digonol' ac, ar hyn o bryd, bydd hyn yn gofyn am uwchsgilio staff a sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael. Bydd cyrff y GIG yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau yn unol â'r 'Cynllun Pum Mlynedd' a nodir yn 'Mwy Na Geiriau' (2022).

## 5.9 Pennod 9: Sylwadau Ychwanegol

Rhoddodd pennod olaf yr ymgynghoriad gyfle i ymatebwyr dynnu sylw at unrhyw faterion neu sylwadau pellach nad oeddent wedi gallu eu gwneud hyd yn hyn.

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion	Ie %	Na %	Thema	Nifer a Nodwyd
C23 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.	20			Cyfathrebu ac Ymgysylltu	4
				Gweithredu a Chyflawni	4
				Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	4
				Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	2
				Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	2

Graffigyn 9.1: Cwestiynau Pennod 9, nifer yr ymatebion, dadansoddiad ie/na a themâu a nodwyd.

**Cwestiwn 23: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Aethpwyd i'r afael â llawer o'r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn drwy gydol yr adroddiad, megis: ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth, rhagor o fanylion am weithredu, a pherthnasoedd â darparwyr gwasanaeth eraill.

O ran y pwynt olaf, teimlai ymatebwyr fod angen mwy o ystyriaeth i'r sectorau annibynnol a gofal cymdeithasol, pwysleisiodd un ymatebydd fod 'ansawdd' ym maes gofal iechyd yn perthyn i bob sefydliad.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith y byddai'n bwysig i Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau sy'n gweithredu'r Ddyletswydd fod mewn sgwrs barhaus er mwyn sicrhau dull cyson o ddysgu a datblygu, er mwyn i'r Ddyletswydd Ansawdd fod yn llwyddiannus. Teimlent y byddai hyn yn 'allweddol i gau'r bwloch rhwng dyhead a gweithredu'. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, roedd ymatebydd arall o'r farn bod angen mwy o fanylion ynghylch sut y caiff arfer da a dysgu eu rhannu ledled Cymru; byddai hyn hefyd yn amlygu lle mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei gwreiddio'n dda.

## **Pennod 9 Ymateb y Llywodraeth**

Yn dilyn sylwadau yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch sut mae'r Ddyletswydd yn rhyngweithio ar draws gwasanaethau a'r sector annibynnol, mae'r geiriad wedi'i egluro yn y canllawiau. Yn ei hanfod, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau ar sgwrs barhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r GIG, a hefyd gyda'r cyhoedd. Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, byddwn yn parhau i ddatblygu mecanweithiau sy'n hyrwyddo dysgu ar y cyd.



## 6. Casgliad a'r Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r broses ymgynghori.

Nodir, fodd bynnag, mai nifer gyfyngedig o ymatebion a dderbyniwyd a bod yr ymatebion yn bennaf gan gyrff y GIG, sefydliadau proffesiynol a thrydydd sector, gyda niferoedd bach o ymatebion gan ddinasyddion.

Serch hynny, rhannwyd adborth a safbwyntiau pwysig yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae'r rhain wedi'u mabwysiadu o fewn y canllawiau a adolygwyd lle bo hynny'n briodol.

Gwnaed newidiadau i eiriad y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, yn seiliedig ar adborth ymgynghori. Mae galluogwr ansawdd ychwanegol wedi'i ychwanegu, sef Gweithlu. Rhoddir eglurder i'r adran ar Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal i atgyfnerthu pwysigrwydd y chwe maes ansawdd a'r chwe galluogwr ansawdd yn eu cyfanrwydd.

Cydnabyddir bod ymatebion mewn rhai meysydd yn gofyn am eglurder ynghylch sut y gellir cyflawni'r canllawiau a'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol. Roedd y canllawiau'n nodi'n glir nad llawlyfr ar sut i wneud ansawdd mewn gofal iechyd ydoedd. Fodd bynnag, mae'n dangos bod angen cymorth parhaus ar gyrff y GIG i gryfhau eu systemau rheoli ansawdd a chymhwyso'r ddyletswydd ansawdd yn ymarferol, a'u bod yn croesawu hynny. Bydd angen i'r amrywiaeth eang o wasanaethau ac arbenigeddau iechyd ystyried sut mae'r ddyletswydd ansawdd gyda'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn dylanwadu ar eu cyd-destun.

Cydnabyddir ymhellach fod adrodd ar ansawdd yn ofyniad arbennig o arwyddocaol, yn benodol, y cysyniad newydd o adrodd 'ar waith bob amser' ar ansawdd. Rhagwelir y bydd dull cyrff y GIG yn aeddfedu gydag amser.

Yn wir, bydd y newid diwylliant system gyfan a nodir gan y ddyletswydd ansawdd yn datblygu ymhen amser. Mae gwella ansawdd gwasanaethau iechyd yn gofyn am weledigaeth, cynllunio, buddsoddiad, gweithredu trylwyr, a monitro gofalus.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y mewnbwn a'r gefnogaeth sylweddol y mae cyrff y GIG a phartneriaid eraill wedi'u cyfrannu at y ddyletswydd ansawdd hyd yma. Mae rhaglen waith i ddarparu'r cymorth ymarferol y mae cyrff y GIG wedi gofyn amdano yn parhau.

## Atodiadau:

### Atodiad A: Diffiniadau Thema

Thema	Diffiniad
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Amlygwyd y byddai angen ymgysylltu a chyfathrebu parhaus â staff a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn i'r canllawiau gael eu gweithredu'n llwyddiannus. Rhoi'r cyfle i leisiau gael eu clywed, a dylai gwybodaeth fod yn hygyrch ac yn glir i bawb ei deall.
Perthynas â Pholisïau/Darparwyr Gwasanaeth eraill	Mae'r ymatebydd wedi amlygu bod angen rhagor o wybodaeth neu eglurder ynghylch sut y bydd canllawiau'r Ddyletswydd Ansawdd yn effeithio ar bolisïau neu ddarparwyr gwasanaeth eraill, neu sut y bydd y rhain yn effeithio ar y Ddyletswydd.
Gweithredu a Chyflawni	Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am sut y bydd y Ddyletswydd yn cael ei gweithredu a'i gwreiddio yn ymarferol, neu codir pryderon ynghylch y dulliau gweithredu a chyflawni a gynnigir.
Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Atebolrwydd	Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, atebolrwydd a sut y bydd y Ddyletswydd Ansawdd yn hyrwyddo diwylliant o wella a dysgu.
Amser, Staffio ac Adnoddau	Mae'r ymatebydd wedi amlygu y bydd gweithredu'r Ddyletswydd yn gofyn am ystyried adnoddau, seilwaith a/neu staff ychwanegol.
Hyfforddi a Datblygu	Er mwyn i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith yn ymarferol, teimlwyd y byddai angen hyfforddiant a chymorth pellach ar gydweithwyr i feithrin eu gwybodaeth, eu hyder a'u sgiliau.
Angen Mwy o Eglurder/Gwybodaeth: Arweiniad a Therminoleg	Gofynnwyd am ragor o fanylion, eglurder neu enghreifftiau i ategu adran o'r canllawiau, neu amlygodd yr ymatebydd y gallai fod angen ailystyried terminoleg.

Atodiad B: Rhestr o'r Ymatebwyr

ID yr Ymatebydd	Enw'r Ymatebydd	Math o Ymatebydd
206374861	Anhysbys	Anhysbys
206990195	Jemimah Morgan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
207022427	Anhysbys	Anhysbys
208039478	Heb ei nodi	Dinesydd/defnyddiwr gwasanaeth
208237978	Anhysbys	Anhysbys
208393233	Anhysbys	Anhysbys
208628586	Anhysbys	Anhysbys
208726413	Alexandra Scott, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
208628764	Anhysbys	Anhysbys
209455304	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209456554	Ms Nicolas Prygodzicz, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209458400	Tanya Kaufmann, Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM Cymru)	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209459251	Wendy Presgrave, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209459788	Nigel Downes, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209461407	Christie Owen, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain Cymru	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209464795	Andy Long, Uned Gyflawni GIG Cymru	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209466965	Kelly Stuart, Pobl yn Gyntaf Cymru	Cymdeithas/Cynrychiolydd darparwr annibynnol
209467150	Triniaeth Deg i Ferched Cymru	Sefydliad/cynrychiolydd elusen
209467965	Cyfarwyddiaeth Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209468471	Anhysbys	Anhysbys
209468435	Calum Higgins, Rheolwr Materion Cyhoeddus a Pholisi Cymru, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209469546	Dr Grace Krause, Anabledd Dysgu Cymru	Sefydliad/cynrychiolydd elusen
209471233	Nick Unwin, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol

209481242	Yr Athro John Boulton, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cynrychiolydd proffesiynol/sefydliad y GIG
209483955	Jenna Hodges, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru (Bwrdd CIC)	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209487129	Rebecca Jewell, Pennaeth Strategaeth, Polisi ac Ymgysylltu, Arolygiaeth Iechyd Cymru	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209488155	Heather Ferguson, Pennaeth Polisi a Phrosiectau, Age Cymru	Sefydliad/cynrychiolydd elusen
209492968	Naila Noori (hi), Swyddog Materion Allanol (Cymru), Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd - Tess Saunders, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru), Coleg Brenhinol Podiatreg - David Davies, Arweinydd Ymarfer Proffesiynol (Cymru), Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209495219	Russell Goodway, Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Cymdeithas/Cynrychiolydd darparwr annibynnol
209495691	Cymdeithas Alzheimer Cymru	Sefydliad/cynrychiolydd elusen
209496531	Valerie Billingham, Arweinydd Iechyd a Gofal, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol
209497146	Daniel Edwards, Swyddog Diogelwch Cleifion ac Ymgysylltu, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol	Cymdeithas/cynrychiolydd proffesiynol